**Trefniadau i adolygu cynnydd ysgolion cynradd ac arbennig ac UCDau sy'n cael eu rhoi yn y categori adolygu gan Estyn – gwybodaeth ar gyfer arweinwyr ysgol, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, Medi 2017.**

**Beth sy'n newid?**

Mae Estyn yn arbrofi â phanel adolygiad desg tymhorol i adolygu'r cynnydd a wnaed ers yr arolygiad craidd ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd a osodwyd yn y categori monitro gan Estyn neu adolygu gan Estyn.

Yn y gorffennol, ychydig o ysgolion yn unig a gafodd adolygiad desg, a chafodd mwyafrif o ysgolion ymweliad monitro. O dan y trefniadau newydd, bydd Estyn dim ond yn ymweld ag ysgolion i adolygu cynnydd pan fydd y panel adolygiad desg yn penderfynu bod angen cynnal ymweliad monitro. O Ionawr 2018, bydd Estyn fel arfer dim ond yn ymweld ag ysgolion ble mae tystiolaeth yr adolygiad desg yn awgrymu bod cynnydd yn rhy araf, neu heb gael digon o effaith ar wella safonau neu'r ddarpariaeth.

Bydd UCDau a osodwyd yn y categori monitro gan Estyn neu adolygu gan Estyn yn parhau i gael ymweliad monitro tua 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

**Ar ba ysgolion y mae'r newidiadau hyn yn effeithio?**

Mae'r trefniadau newydd yn effeithio ar ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ble nododd yr arolygiad craidd fod angen i'r ysgol gael ei monitro gan Estyn neu'i hadolygu gan Estyn, ac mae adroddiad yr arolygiad craidd wedi'i gyhoeddi er Hydref 2016. Mae hyn yn cynnwys ysgolion a arolygwyd fel rhan o gynllun peilot y trefniadau arolygu newydd, ac ysgolion a arolygwyd o dan fframwaith arolygu presennol 2010.

**Pryd bydd y paneli adolygiad desg yn cael eu cynnal?**

Bydd Estyn yn adolygu cynnydd ysgolion cynradd ac arbennig yn ystod tymor 5, pan gyhoeddwyd adroddiad yr arolygiad craidd yn nhymor 1. Bydd paneli adolygu yn cael eu cynnal yn ystod pythefnos cyntaf pob tymor. Os bydd angen ymweliad, bydd yn cael ei gynnal yn ystod yr un tymor.

Bydd Estyn yn defnyddio'r dyddiad cyhoeddi, nid dyddiad yr arolygiad, i benderfynu pryd y cynhelir yr adolygiad o'r ysgol. Er enghraifft, bydd ysgolion y cyhoeddwyd eu hadroddiadau yn ystod tymor yr hydref 2016 yn cael adolygiad desg ar ddechrau tymor y gwanwyn 2018. Bydd ysgolion y cyhoeddwyd eu hadroddiadau yn ystod tymor y gwanwyn 2017 yn cael eu hadolygu ar ddechrau tymor yr haf 2018.

Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael 10 diwrnod gwaith o rybudd am y panel adolygu. Dylent ddisgwyl cael rhybudd ar ddiwedd y tymor blaenorol, gan y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal ar ddechrau'r tymor dilynol. Wedi iddynt gael gwybod, bydd gan ysgolion ac awdurdodau lleol gyfnod byr o ryw 10 niwrnod i gyflwyno'r ddogfen angenrheidiol.

**Beth mae angen i'r ysgol/ALI ei ddarparu ar gyfer y panel adolygu?**

Bydd gofyn i'r ysgol gyflwyno adroddiad effaith cryno, yn amlinellu tystiolaeth o effaith yr arweinyddiaeth wrth wella safonau, addysgu a darpariaeth. Yn Atodiad 1 y ddogfen hon, mae Estyn wedi darparu templed fel awgrym. Nid yw'r templed hwn yn orfodol a dylai ysgolion benderfynu drostyn nhw eu hunain sut i gyflwyno eu tystiolaeth i ddangos eu gallu gwell i ysgogi gwelliannau.

**Ni** ddylai'r adroddiad **fod yn hwy na phedair ochr A4.** Dylai roi'r amlygrwydd mwyaf i'r modd y mae'r ysgol wedi mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, a nodwyd yng nghwestiwn allweddol 3 neu faes arolygu 5 adroddiad yr arolygiad craidd. Er enghraifft, gallai arweinwyr fod wedi gwella eu systemau hunanarfarnu, neu gryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer cynllun gwella'r ysgol, fel ei fod yn fwy effeithiol o ran gwella deilliannau a'r ddarpariaeth. O ganlyniad i'r ffocws craffach a gwell, gallai deilliannau penodol fod wedi gwella, er enghraifft darllen bechgyn ym Mlynyddoedd 3 a 4, neu bresenoldeb neu gyflawniad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Efallai bydd yr ysgol eisiau defnyddio tystiolaeth o effaith o waith y mae wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion eraill, er mwyn dangos sut mae wedi gwella'i gallu i ymateb i faes gwendid ac ysgogi gwelliannau yn effeithlon. Nid oes gofyniad am ddisgrifiad manwl o'r camau gweithredu unigol y mae'r ysgol wedi'u cymryd, nac ar gyfer y cynllun gweithredu ei hun. Wrth greu'r crynodeb, dylai'r ysgol gofio y bydd y panel yn canolbwyntio ar effaith well camau gweithredu arweinwyr yn ystod y cyfnod ers yr arolygiad.

Dylai'r awdurdod lleol gyflwyno naill ai nodyn ymweliad diweddaraf yr Ymgynghorydd Her a/neu adroddiad categoreiddio yn uniongyrchol i Estyn. Bydd y panel adolygu'n rhoi ystyriaeth addas i'r ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio data sydd ar gael o brofion neu asesiadau athrawon er mwyn mesur cynnydd disgyblion ac amlygu ffyrdd o wella addysgu a dysgu o ganlyniad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Pan fydd y panel adolygiad desg yn penderfynu bod ysgol wedi gwneud gwelliannau digonol ac nad oes angen ei monitro mwyach, bydd Estyn yn rhoi gwybod i'r ysgol a'r awdurdod lleol trwy lythyr, yn ddiweddarach yn ystod y tymor. Bydd y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn hefyd.

Pan fydd y panel adolygiad desg yn penderfynu bod angen ymweliad, bydd Estyn yn trefnu cynnal yr ymweliad yn ddiweddarach yn ystod yr un tymor. Ar gyfer yr ymweliadau hyn, ac ar gyfer UCDau sy'n cael eu rhoi yn y categori monitro gan Estyn neu adolygu gan Estyn, bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol (a'r esgobaeth, lle

bo'n briodol) yn cael 10 diwrnod o rybudd ynglŷn â'r ymweliad. Gan amlaf, bydd dau AEM yn ymweld â'r ysgol am ddiwrnod a hanner.

Bydd yr ymweliad yn canolbwyntio ar b'un a yw'r ysgol wedi dangos cynnydd digonol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Mae'n debygol y bydd y tîm monitro eisiau ymweld ag ystafelloedd dosbarth, craffu ar waith disgyblion, cyfweld ag arweinwyr ac ystyried unrhyw dystiolaeth arall y mae'r ysgol yn ei darparu ar y modd y mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau cynnar i'r ddarpariaeth a'r deilliannau. Bydd arolygwyr yn arfarnu'r cynnydd a wna disgyblion a'r safonau a gyflawnir ganddynt yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd. Yn ychwanegol, bydd arolygwyr yn ystyried unrhyw dystiolaeth am y modd y cryfhawyd gallu i arwain, fel bod yr ysgol mewn sefyllfa dda i barhau ar ei thaith i wella.

Wedi i ysgol gael hysbysiad am ymweliad, bydd arweinwyr yn cael cyfle i ailgyflwyno eu hadroddiad cynnydd, er mwyn diweddaru unrhyw gamau gweithredu ac effaith ers adolygiad desg y panel. Ar gyfer UCDau, byddant yn cael cyfle i gyflwyno eu hadroddiad cynnydd, ynghyd ag adroddiad diweddaraf yr ymgynghorydd her ar yr adeg hon. Yn ogystal, bydd angen i'r tîm sy'n ymweld gael copi o gynllun datblygu presennol yr ysgol, y ddogfen hunanarfarnu, rhestrau staffio ac amserlenni. Gallai'r ysgol gyflwyno tystiolaeth arall o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hefyd.

Yn dilyn yr ymweliad, bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn cael adborth ysgrifenedig. Bydd canlyniad yr ymweliad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn.

**Beth sy'n digwydd os bydd y tîm monitro yn penderfynu bod cynnydd yn annigonol?**

Os bydd y tîm monitro yn barnu bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd aneffeithiol o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd, ac nid yw'n dangos gallu gwell i arwain, gallent benderfynu bod angen monitro mwy dwys ar yr ysgol. Yn yr achos hwn, gallai arolygwyr farnu bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar yr ysgol. Bydd arolygwyr yn ystyried p'un a yw'r ysgol yn perfformio gryn dipyn yn waeth nag y gallai yn yr holl amgylchiadau y mae'n rhesymol disgwyl iddi berfformio ynddynt. Byddant yn ystyried p'un a yw'r ysgol yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion, ac a yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol.

Os bydd angen categori statudol gweithgarwch dilynol ar yr ysgol (gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig), bydd adroddiad yr ymweliad yn cael ei rannu â'r ysgol a'r awdurdod lleol, a'i gyhoeddi ar wefan Estyn. Bydd monitro dilynol yn dilyn gweithdrefnau arferol Estyn ar gyfer ysgolion sydd wedi cael eu rhoi yn y categori gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig.

Atodiad 1: Tystiolaeth o gynnydd ar gyfer y panel desg, ar gyfer ysgolion cynradd neu arbennig yn adolygiad Estyn neu ar gyfer yr ymweliad monitro ar gyfer UCDau

Enw'r ysgol:

| **Argymhelliad a nodwyd yn yr arolygiad craidd** | *Enghraifft: Sicrhau bod yr holl athrawon yn cynllunio gweithgareddau i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr, yn enwedig y rhai mwy abl* | |
|---|---|---|
| | | |
| Nodiadau bras a chryno am yr hyn y mae'r ysgol wedi'i wneud i wella pethau | Arfarniad clir o effaith y camau gweithredu a gymerwyd gan arweinwyr. Pa wahaniaeth y maent wedi'i wneud i ddisgyblion? Beth sydd wedi gwella? Sut ydych chi'n gwybod? | Beth yw'r camau nesaf i ymgorffori a chynnal y cynnydd a wnaed hyd yn hyn? A oes yna unrhyw gamau gweithredu y mae angen gweithio arnynt ymhellach? |
| • *HMS ysgol gyfan ar ymestyn y disgyblion mwyaf abl Tach 16*<br>• *Craffu ar waith pob un o'r staff yn rheolaidd (amser cyfarfod staff) wedi'i arwain gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, yn canolbwyntio ar baru tasg a her â gallu*<br>• *Mae athrawon targedig wedi arsylwi arfer orau mewn asesu ar gyfer dysgu yn yr ysgol ac yn Ysgol y Dderwen*<br>• *Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn bwrw golwg dros lyfrau bob hanner* | • *Mae monitro llyfrau a chynllunio gan yr uwch dîm arweinyddiaeth yn dangos bod gwaith yn gweddu'n well i alluoedd disgyblion bron ym mhob dosbarth*<br>• *Mae olrhain gan yr ysgol bellach yn amlygu cynnydd disgyblion yn ôl grŵp yn gliriach. Mae data diweddar yn dangos bod cynnydd yn gyflymach ar gyfer pob grŵp ers yr arolygiad craidd. Mae'r cynnydd ar ei gyflymaf ar gyfer y disgyblion mwy abl.*<br>• *Mae asesiadau athrawon yn dangos tuedd o wella gyda % fwy o B5 a B6 ar y trywydd iawn i gyrraedd L5 yn gadarn mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth erbyn diwedd CA2* | *Mae asesiadau athrawon yn dangos, er bod cynnydd ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn B2, 3 a 4 yn unol â grwpiau eraill o leiaf, nid yw mor gyflym ag ydyw yn B5 a 6.*<br>• *Yn ddiweddar, mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi dechrau â system driad i annog gwelliannau yn y carfanau hyn, ond mae'n rhy gynnar o hyd i weld gwelliannau yn neilliannau disgyblion.*<br>• *Bydd rhai athrawon yn symud i wahanol grwpiau blwyddyn o fis Medi, i ymgorffori cysondeb mewn gwelliannau i gynnydd disgyblion.* |

| | | |
|---|---|---|
| *tymor, craffu ar gynllunio, galw i mewn i wersi yn rheolaidd, adborth i athrawon a gweithgarwch dilynol/cynlluniau gweithredu*<br>• *Cynadleddau disgyblion â gwaith disgyblion bob tymor, canolbwyntio ar gynnydd disgyblion mwy abl* | • *Mae data profion yn dangos bod gan bob carfan ac eithrio B4 % gynyddol o ddisgyblion yn cyflawni 115+ mewn darllen a mathemateg weithdrefnol o gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf* | |